WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Mr David Waggett
Prif Weithredwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Swyddfeydd Bwrdeistrefol
Y Ganolfan Ddinesig
Glynebwy
NP23 6XB

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 26 Medi 2012 |
| **Ein cyfeirnod** | 454A2012 |
| **Eich cyfeirnod** | |
| **Rhif ffôn** | 029 2032 0500 |
| **E-bost** | walesauditoffice@wao.gov.uk |
| **Tudalennau** | **1** o **15** |

Annwyl David

## Asesiad Gwella

Mae'n ofynnol i mi, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), gyflwyno adroddiad ar fy ngwaith archwilio ac asesu ynghylch a yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi cyflawni ei ddyletswyddau ac wedi bodloni gofynion y Mesur.

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi:

- fy marn ynghylch a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â chynllunio gwelliant;
- fy marn ar gydymffurfiaeth y Cyngor â'r gofynion i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus, yn seiliedig ar waith a wnaed hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, gan gynnwys:
  - cynnydd y Cyngor mewn perthynas â meysydd i'w gwella ac argymhellion a nodwyd yn fy asesiadau blaenorol;
  - unrhyw faterion perthnasol a all fod wedi dod i'r amlwg ers fy adroddiad diwethaf, gan gynnwys sylwadau ar sut mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â heriau ariannol;
  - crynodeb byr o unrhyw adroddiadau gan reoleiddwyr perthnasol a gyhoeddwyd ers fy adroddiad diwethaf.
- fy nghynigion pellach ar gyfer gwella a/neu argymhellion;
- diweddariadau i gynllun gwaith ac amserlen Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer cyflawni fy ngwaith ar yr Asesiad Gwella.

Byddaf yn diweddaru fy safbwyntiau yn ystod y flwyddyn ac yn anfon llythyr arall erbyn diwedd mis Tachwedd 2012.

## Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan y Mesur. Fodd bynnag, dylai sicrhau ei fod yn gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru i raddau helaethach.

Deuthum i'r casgliad hwn am fod fy ngwaith archwilio ac asesu wedi canfod bod Amcanion Gwella'r Cyngor a'i gynllun gwella blynyddol, sef 'Cynllun Gwella Corfforaethol 2012-2017 - 2012-13 Cam 1' (y Cynllun), yn bodloni gofynion y Mesur. Mae'r Cynllun yn esbonio pam a sut y dewiswyd y blaenoriaethau a sut mae'r Amcanion Gwella yn adlewyrchu blaenoriaethau allweddol y Cyngor ac yn canolbwyntio'n benodol ar feysydd lle mae angen gwella ansawdd bywyd pobl leol.

Caiff y sail dros ddewis pob un o'r amcanion gwella ei nodi'n glir ac mae'r Cynllun hefyd yn cynnwys adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau'r Cyngor, barn ei bartneriaid strategol a'i randdeiliaid, blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a materion cymunedol lleol. Mae'r Cyngor wedi gwneud rhagor o waith i wella'r ffordd y mae'n ymgynghori ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ac yn achos y rhan fwyaf o'r Amcanion Gwella gellir gweld bod gwaith ymgysylltu priodol a pherthnasol wedi digwydd. Mae'r Amcanion Gwella yn seiliedig ar dystiolaeth o weithgarwch ymgysylltu blaenorol yn ogystal â chanlyniadau'r arolwg ymgynghori cyhoeddus a gynhaliwyd ym mis Mai 2012. Mae'r Cyngor yn bwriadu diweddaru a chryfhau ei ddull o weithredu a'i wybodaeth wrth gyhoeddi Cam 2 ei Gynllun Gwella Corfforaethol ym mis Hydref 2012 drwy ymgynghori'n benodol â'r Panel Dinasyddion a sefydlwyd yn ddiweddar ynghylch ei Amcanion Gwella.

Mae pob Amcan Gwella yn cynnwys cyfres o gamau i'w cyflawni yn 2012-13. Fodd bynnag, cymysg yw ansawdd y cynlluniau gweithredu. Nid yw pob un o'r camau gweithredu yn cysylltu'n uniongyrchol â'r Amcanion Gwella ac felly ychydig o gyfraniad a wnânt o ran cyflawni'r Amcanion hynny. Er enghraifft, nid yw'r amcan i gynnal a gwella'r rhwydwaith priffyrdd er mwyn cyfrannu at seilwaith trafnidiaeth diogel ac effeithiol yn cynnwys unrhyw fesurau sy'n gysylltiedig â barnu effaith gweithgarwch y Cyngor ar sut y mae wedi gwella diogelwch drwy adrodd ar leihad yn nifer y damweiniau traffig ar y ffyrdd neu anafiadau/marwolaethau ar briffyrdd.

Nid oes tystiolaeth gyson ar gael o'r cysylltiad rhwng yr Amcanion Gwella a'r mesurau llwyddiant, y data sylfaenol a'r targedau ar gyfer gwella sy'n gysylltiedig â hwy. Mae rhai cysylltiadau yn glir iawn ac maent yn dangos yr effaith y bwriedir i waith gwella ei chael, megis yr Amcan Gwella i ad-drefnu addysg yng Nghwm Ebwy Fawr er mwyn codi safonau addysgol. Yma, mae'r mesurau llwyddiant yn canolbwyntio ar gyrhaeddiad ac mae'r canlyniad terfynol yn glir. Mewn Amcanion Gwella eraill, nid yw'r mesurau ar gyfer asesu a oes unrhyw un yn well ei fyd mor fanwl nac effeithiol. Er enghraifft, yr Amcan Gwella i gynyddu a chynnal cyfleoedd cyflogaeth i ddinasyddion Blaenau Gwent drwy roi cymorth ariannol uniongyrchol i fusnesau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes. Yma mae'r mesurau llwyddiant yn edrych yn benodol ar nifer a swm y grantiau a ddyrennir o dan gynlluniau dynodedig ond nid ydynt yn asesu faint o swyddi a grëir yn sgil y gweithgarwch arbennig hwn. Yn hytrach, cofnodir faint o swyddi a grëir ledled Blaenau Gwent. Golyga

hyn nad yw'n bosibl mesur canlyniad gwaith y Cyngor o ran cyflawni'r Amcan Gwella na barnu a yw'n cael effaith gadarnhaol.

Mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol)(Cymru) 2011 yn nodi gofynion penodol ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'n ofynnol iddynt ddatblygu a chyhoeddi Amcanion Cydraddoldeb a Chynllun Cydraddoldeb Strategol erbyn 2 Ebrill 2012. Mae'r gofyniad i lunio Amcanion Cydraddoldeb yn cyd-fynd yn agos â'r elfen 'Tegwch' y mae'n rhaid i awdurdodau ei hystyried wrth bennu amcanion gwella o dan y Mesur. Cyhoeddodd y Cyngor ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol ym mis Mawrth 2012 gan nodi ynddo ei flaenoriaethau o ran cydraddoldeb. Fodd bynnag, gwelwyd nad yw 'Cynllun Gwella Corfforaethol 2012-2017 - 2012-13 Cam 1' yn cynnwys unrhyw wybodaeth i ddangos sut mae'r Cyngor wedi bodloni'r gofynion statudol hyn wrth bennu ei Amcanion Gwella ac mae angen i'r Cyngor sicrhau ei fod yn mynd i'r afael â hyn wrth adolygu ei Amcanion ym mis Hydref 2012.

## Fel y nodwyd yn fy Asesiad Corfforaethol ym mis Tachwedd 2011 ac ar sail gwaith a wnaed hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, ac yn gyfyngedig iddo, credaf o hyd ei bod yn annhebygol y bydd y Cyngor yn cydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol hon oni bai ei fod yn newid yn gyflymach ac yn gweithredu ei gynlluniau er mwyn sicrhau effaith a gwelliannau cynaliadwy

Deuthum i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

**Mae'r Cyngor yn gweithredu'n araf i fynd i'r afael â'r gwendidau diwylliannol hirsefydlog o ran perfformiad ac arweinyddiaeth, ond mae cyflymder a maint y newid sydd ei angen dros y chwe mis nesaf yn golygu ei bod yn ansicr a fydd y Cyngor yn sicrhau gwelliannau cynaliadwy a chyson i ddinasyddion Blaenau Gwent.**

Ym mis Tachwedd 2011, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol Asesiad Corfforaethol o drefniadau'r Cyngor i sicrhau gwelliant parhaus a daeth i'r casgliad fod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud i gyflawni gwelliannau allweddol ond, oni bai yr eir i'r afael ag anghysondebau a gwendidau yn y ffordd y caiff y Cyngor ei redeg, ei bod yn annhebygol y bydd y Cyngor yn cyflawni unrhyw welliant sylweddol cynaliadwy. Wrth asesu trefniadau'r Cyngor yn gyffredinol, casglwyd ei bod yn annhebygol y bydd y Cyngor yn cydymffurfio â'i ddyletswydd statudol a gwnaed argymhelliad statudol (nodir yr argymhelliad statudol yn Atodiad 1). Ym mis Rhagfyr 2011 ymatebodd y Cyngor i argymhelliad statudol yr Archwilydd Cyffredinol o fewn y 30 diwrnod gwaith fel sy'n ofynnol a derbyniwyd yr ymateb cychwynnol hwn gan y Cyngor. Hefyd, cyflwynodd y Cyngor gynllun gweithredu i'r Archwilydd Cyffredinol ym mis Mawrth 2012 a roddodd ragor o fanylion am y rhaglen newid arfaethedig sy'n canolbwyntio ar gyflawni pum canlyniad cyffredinol.

Rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2012 mae'r Cyngor wedi parhau i fireinio ei gynllun gweithredu fel rhan o'i 'Raglen Adfer Gorfforaethol' (y Rhaglen) ac mae hefyd wedi datblygu trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd cliriach drwy ei waith gyda Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Datblygwyd y Rhaglen drwy ymgysylltu'n ddwys ac yn rheolaidd ag aelodau ac uwch swyddogion o bob rhan o'r Cyngor, a hynny cyn ac ar ôl yr etholiad llywodraeth leol ym mis Mai 2012. Newidiodd arweinyddiaeth a gweinyddiaeth y Cyngor yn sgil yr etholiad a chaiff ei arwain bellach gan y Grŵp Llafur.

Prif ffocws y Rhaglen yw mynd i'r afael â'r gwendidau hirsefydlog o ran arweinyddiaeth, diwylliant a pherfformiad, sydd wedi atal y Cyngor rhag gwneud gwelliannau sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r Rhaglen yn anelu at gyflawni pum canlyniad cyffredinol, a ategir gan 27 o feysydd i'w gwella a 149 o gamau gweithredu unigol. Mae'r holl gamau gweithredu hyn i'w cyflawni rhwng mis Mai 2012 a mis Ionawr 2014, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt i'w cwblhau yn ystod 2012-13. Ym mis Mehefin 2012, nododd y Cyngor fod 12 o'r 149 o gamau gweithredu wedi'u cwblhau. Cyflawnwyd pob un o'r rhain o fewn amserlen darged y Cyngor. Mae llawer o'r camau gweithredu yn rhyng-gysylltiedig ac ni fydd eu heffaith ar wella canlyniadau a mynd i'r afael â gwendidau diwylliannol y Cyngor yn amlwg ar unwaith.

Mae fframwaith i gydgysylltu a rheoli'r gwaith o gyflawni camau gweithredu'r Rhaglen yn cael ei ddatblygu gan ddefnyddio Ffynnon[1] ac mae rhagor o waith yn cael ei wneud i sicrhau bod gwasanaethau yn cynnwys camau gweithredu allweddol yn eu cynlluniau gwella gwasanaethau a'u cynlluniau busnes unigol. Mae'r Cyngor hefyd yn datblygu cyfres o fesurau procsi i allu barnu a dangos effaith gadarnhaol ei waith. Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio'n galed i sefydlu systemau rheoli cadarn i helpu i gyflawni camau gweithredu'r Rhaglen, ond nid yw'r systemau hyn wedi'u rhoi ar waith yn gyson eto ym mhob rhan o'r Cyngor neu mae angen eu datblygu ymhellach i sicrhau eu bod yn effeithiol. Er enghraifft, nid yw rhai cynlluniau gwasanaeth a chynlluniau busnes wedi'u drafftio na'u rhoi ar waith eto, mae rhai o dasgau'r Rhaglen ar ei hôl hi ac mae angen gwneud rhywfaint o waith datblygu data er mwyn gallu adrodd yn llawn ar y mesurau procsi a ddefnyddir i farnu effaith y gwelliannau a ddaw yn sgil y Rhaglen.

Ym mis Gorffennaf 2012, cytunodd y Cyngor i benodi'r Prif Weithredwr ar sail barhaol (fe'i penodwyd i'r swydd dros dro yn flaenorol). Yn gynharach yn 2012 penododd y Cyngor Gyfarwyddwr Adfer Addysg hefyd. Mae'r penodiadau hyn, ynghyd ag ymrwymiad Aelodau o bob grŵp gwleidyddol i weithio gyda'i gilydd, a'r gwaith arfaethedig o dan y Rhaglen Adfer Gorfforaethol, yn gamau pwysig i fynd i'r afael â'r heriau sylweddol sy'n wynebu'r Cyngor. Fodd bynnag, mae cryn dipyn o ymdrechion diweddar y Cyngor wedi canolbwyntio ar gynllunio ar gyfer gwelliant a pharatoi i wella. Mae angen iddo nawr roi ei gynlluniau ar waith a chyflawni'r newid diwylliannol a sefydliadol angenrheidiol yn ystod y

[1] Mae Ffynnon yn ddatrysiad meddalwedd a gaffaelwyd yn genedlaethol i fodloni gofynion rheoli perfformiad awdurdodau lleol, gwasanaethau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru a'u partneriaid.

chwe mis nesaf i brofi ei fod wedi troi'r cornel a'i fod yn gallu cyflawni gwelliant parhaus mewn ffordd gynaliadwy. Mae'r rhain yn wendidau hirsefydlog y mae'n rhaid mynd i'r afael â hwy'n gyflym ac mae'n bwysig i'r Cyngor ddangos i'w ddinasyddion ei fod yn gwneud y newidiadau sydd eu hangen i gyflawni gwelliannau sylweddol a chynaliadwy.

Rwyf wedi nodi o'r blaen nifer o argymhellion a chynigion ar gyfer gwella a hefyd wedi nodi rhai meysydd lle y byddem yn gwneud rhagor o waith. Rhoddir crynodeb o'r cynnydd ar y materion hyn isod a cheir rhagor o fanylion yn Atodiad 1. Mae'r Cyngor wedi derbyn pob un o'r meysydd i'w gwella a nodwyd gennym yn ein gwaith diweddar ond mae cynnydd y Cyngor o ran ymateb i'n canfyddiadau yn anghyson. Gwnaed cynnydd da mewn rhai meysydd, er enghraifft, gwaith y Cyngor i gryfhau ei swyddogaeth craffu a sefydlu Panel Dinasyddion drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Fodd bynnag, erys gwaith i'w wneud mewn meysydd eraill fel datblygu mesurau canlyniadau cadarn. Lle bo camau'n mynd rhagddynt, byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor o ran eu gweithredu ac yn llunio adroddiadau arno. Caiff rhagor o wybodaeth am ein canfyddiadau yn rhai o'r meysydd hyn ei rhoi ar wahân mewn diweddariadau interim i'r Cyngor lle y bo'n briodol.

### Nid yw systemau i reoli gwybodaeth am berfformiad mewn rhai gwasanaethau yn gyson nac yn gadarn o hyd

Mae angen i bob cyngor gael gwybodaeth dda a'i defnyddio'n dda er mwyn iddo ddarparu gwasanaethau da a'u gwella. Mae gan y Cyngor systemau sefydledig i adrodd ar ei berfformiad ac rydym wedi archwilio'r systemau hyn yn ddiweddar i asesu pa mor effeithiol a dibynadwy yw'r trefniadau hyn. Mae'r mesurau a ddewiswyd gennym i'w harchwilio yn gymysgedd o Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol, Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus, Setiau Data Gwella Gwasanaethau a mesurau lleol a ddatblygwyd gan y Cyngor. Mae'r holl fesurau a archwiliwyd yn fesurau a ddefnyddir gan y Cyngor i farnu pa mor dda y mae'n cyflawni ei amcanion gwella ac a yw'n gwneud gwahaniaeth i'w ddinasyddion.

Canfuwyd, o'r 27 o fesurau a archwiliwyd, fod yn rhaid amodi pedwar dangosydd lleol a bod yn rhaid cywiro chwech oherwydd gwallau. Byddwn yn cyflwyno adroddiad ar berfformiad gwasanaethau yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol.

### Mae systemau rheoli cyllidebol yn parhau i weithio'n effeithiol ond mae angen mynd i'r afael â bylchau yn Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor a rhai heriau o ran cyflawni prosiectau cyfalaf er mwyn helpu i gyflawni gwelliannau yn y dyfodol

Mabwysiadodd y Cyngor ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ym mis Hydref 2011. Mae'r Strategaeth yn nodi'r blaenoriaethau allweddol canlynol i'r Cyngor: rhoi Rhaglen Trawsnewid Addysg ar waith; parhau i weithio ar yr agenda byw'n annibynnol; adfywio Blaenau Gwent; blaenoriaethau amgylcheddol o ran rheoli gwastraff ac effeithlonrwydd ynni; a darbodusrwydd ariannol gyda'r Cyngor yn byw o fewn ei adnoddau.

Mae gan y Cyngor broses sefydledig i bennu ei gyllideb ac mae wedi sefydlu gweithgor cyllidebol sy'n herio'r broses o flaenoriaethu meysydd gwariant a'r meysydd cyffredinol

lle bydd angen gwneud arbedion. Wrth bennu cyllidebau mae'r Cyngor yn cynnal asesiad risg ac asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer cynigion arbedion unigol. Mae trefniadau atebolrwydd yn glir a cheir tystiolaeth bod y camau gweithredu a nodwyd i leihau gwariant a chreu arbedion a/neu wella effeithlonrwydd yn cael eu cyflawni. Caiff her ei chynnwys fel rhan o'r system a cheir adroddiadau rheolaidd ar berfformiad cyllidebol ar y lefel uchaf mewn cyfarfodydd craffu a chyfarfodydd Cyngor.

Wrth bennu cyllideb refeniw 2012-13 o £133.56 miliwn, ceisiodd y Cyngor amddiffyn blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, sef gwasanaethau cymdeithasol rheng flaen ac ysgolion. Fodd bynnag, yn sgil maint yr her ariannol sy'n wynebu'r Cyngor, bu'n rhaid i'r meysydd hyn gyfrannu rhywfaint at y targed arbed cyffredinol. Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn nodi'r pwysau posibl o ran costau yn y dyfodol o fewn gwasanaethau ac yn amcangyfrif y bydd naill ai angen adnoddau ychwanegol ar y Cyngor neu y bydd angen iddo wneud arbedion ac ailddyrannu gwariant refeniw presennol o rhwng £3.7 miliwn a £5.1 miliwn i fynd i'r afael â'r pwysau hwn. Nid yw'n glir o'r Strategaeth pa mor fanwl a thrylwyr yw'r asesiad hwn nac am ba hyd y bydd angen mynd i'r afael â'r pwysau ariannol hwn.

Mae'r Cyngor wedi blaenoriaethu ei wariant cyfalaf ar gyfer 2011-12 tan 2013-14 ac mae'n anelu at fuddsoddi £20.7 miliwn. Fodd bynnag, erys y swm hwn yn llawer is na'r hyn sydd ei angen i ddiwallu pob un o'i anghenion buddsoddi presennol ac mae rhai prosiectau cyfalaf yn wynebu diffygion ariannol. Er enghraifft: buddsoddi yn The Works, oedd, ar adeg yr asesiad hwn, â diffyg heb ei ariannu o £1.8 miliwn (o fewn pecyn ariannu cyffredinol o £166.7 miliwn), ond sydd bellach wedi'i ddatrys; a chwblhau Ardal Adnewyddu Six Bells lle mai dim ond traean o'r eiddo a oedd wedi'i gynnwys yn wreiddiol o fewn ffiniau'r ardal adnewyddu sydd wedi cael ei wella er gwaethaf lefelau uchel o fuddsoddiad. Mae'r Cyngor hefyd yn rhagweld y bydd ei gyllideb cyfalaf yn lleihau 22 y cant i £4.3 miliwn erbyn 2013-14. Er bod hyn yn llawer llai nag sydd ei angen, mae'r Cyngor wedi cyllidebu ar gyfer y gostyngiad hwn ac wedi cymeradwyo rhaglen gyfalaf o gynlluniau y gellir eu cyflawni o fewn y terfyn ariannol disgwyliedig hwn.

Nid yw'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn dangos y mesurau manwl y mae angen i'r Cyngor eu cymhwyso er mwyn mynd i'r afael â'r pwysau tymor canolig hwn o ran refeniw ac arian cyfalaf. Mae gan y Strategaeth gynllun gweithredu ond nid yw hwn yn dangos yn fanwl sut yr eir i'r afael â'r diffygion a ragwelir na sut y rheolir pwysau ar wasanaethau yn y dyfodol. Heb y manylder hwn ni all y Cyngor nodi'n glir na chynllunio sut y bydd yn mynd i'r afael â'r heriau ariannol sylweddol sy'n ei wynebu dros y tymor canolig a gall wynebu mwy o risg os bydd yn dibynnu gormod ar ei broses gyfredol o ran pennu'r gyllideb flynyddol. Dros y misoedd diwethaf mae'r Cyngor wedi dechrau mynd i'r afael â'r heriau ariannol sy'n ei wynebu drwy greu grwpiau cynllunio ariannol newydd a gwneud rhagor o waith i reoli ei raglen gyfalaf yn well. Byddwn yn rhoi sylwadau ar effaith y gwaith hwn mewn diweddariadau yn y dyfodol.

Er y gwnaed gwaith lefel uchel i asesu cynnydd posibl mewn costau yn y dyfodol, nid aseswyd effaith newidiadau o'r fath. Ceir ymwybyddiaeth gyffredinol o'r ffactorau a fydd yn effeithio ar y gyllideb yn y dyfodol, fel newidiadau demograffig ym meysydd gofal cymdeithasol ac ysgolion, ond ni ddefnyddiwyd unrhyw dystiolaeth feintiol nac ansoddol

gadarn i gefnogi penderfyniadau a wneir wrth bennu'r gyllideb. Gwnaed rhywfaint o waith ar safonau gwasanaethau neu feini prawf cymhwysedd, ond rhoddwyd cryn ystyriaeth i rai meysydd, er enghraifft, mynediad i wasanaethau oedolion fel rhan o raglen Eiddilwch Gwent. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o feysydd gweithredu, nid yw'r Cyngor wedi pennu lefel y gwasanaeth na'r math o wasanaeth y mae am ei ddarparu ar sail asesiad o ofynion statudol ac anstatudol nac wedi pennu lefelau gwasanaethau ar sail safonau gofynnol y cytunwyd arnynt sydd eisoes wedi'u pennu.

Mae'r Cyngor wedi gwneud rhywfaint o waith gwerthuso i weld sut y gall ddarparu gwasanaethau o ansawdd gwell am gost is (neu ragor o wasanaethau am yr un gwariant) ond canolbwyntiodd y gwaith hwn yn bennaf ar gydweithredu â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus. Yn gyffredinol mae'r Cyngor wedi rhoi gwaith ar gontractau allanol ac wedi cydweithredu â chynghorau cyfagos - er enghraifft, y gwasanaeth gofal cymdeithasol integredig â Chaerffili, a'r gwasanaeth mabwysiadu ar y cyd â Sir Fynwy a Thorfaen. Rhoddwyd pwyslais ar rannu costau i ddarparu gwasanaethau yn fwy effeithiol.

**Mae partneriaid yn ymrwymedig iawn i weledigaeth rhaglen Eiddilwch Gwent ac maent wedi llunio fframwaith rheoli rhaglen cadarn i'w hategu. Megis dechrau y mae'r gwaith o weithredu rhaglen Eiddilwch Gwent ac erys heriau i sicrhau ei bod yn gynaliadwy, newid ymddygiad sefydledig a dangos ei heffaith.**

O fis Ebrill 2011 dechreuodd Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan a Chynghorau Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen roi model integredig uchelgeisiol o iechyd a gofal cymdeithasol ar waith, o'r enw Rhaglen Eiddilwch Gwent. Mae gan y Rhaglen hon statws cyfreithiol o dan gytundeb Partneriaeth Adran 33[2] rhwng y Bwrdd Iechyd a'r pum awdurdod lleol ac fe'i cefnogir gan £6.9 miliwn o Gronfa Buddsoddi i Arbed Llywodraeth Cymru. Mae nodau'r Rhaglen yn berthnasol iawn i'r ffordd y mae'r cyrff sector cyhoeddus dan sylw yn defnyddio eu hadnoddau ac maent yn ganolog i flaenoriaethau gwella pob un o'r asiantaethau dan sylw.

[2]Lluniwyd cytundeb partneriaeth o dan Adran 33 o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 i'w gwneud yn bosibl i integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a chyfuno cyllidebau i gyflawni prosiect eiddilwch Gwent.

Cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad cychwynnol o'r trefniadau ar gyfer gweithredu'r Rhaglen, a ganolbwyntiodd ar roi sicrwydd cynnar o ran trefniadau llywodraethu a chyfeiriad teithio tuag at gyflawni nodau a chanlyniadau bwriadedig, yn hytrach na gwerthuso llwyddiant. Daethom i'r casgliad fod Partneriaid yn ymrwymedig iawn i weledigaeth y Rhaglen a'u bod wedi llunio fframwaith rheoli rhaglen cadarn i'w hategu. Megis dechrau y mae'r gwaith o weithredu'r Rhaglen ac erys heriau i sicrhau ei bod yn gynaliadwy, newid ymddygiad sefydledig a dangos ei heffaith.

**Nid yw trefniadau llywodraethu na rheoli prosiect Ardal Adnewyddu Six Bells yn gynhwysfawr ac nid ydynt wedi helpu'r Cyngor i adfywio cymuned Six Bells yn effeithiol yn ôl y bwriad.**

Ym mis Medi 2003 cyhoeddodd y Cyngor Ardaloedd Adnewyddu Cymdogaeth Six Bells[3], sy'n nodi ei fwriad strategol i fagu hyder yn y pentref drwy wella adeiladwaith ffisegol y stoc tai bresennol a chael gwared ar adeiladau gwag, adfeiliedig a diangen. Cymeradwywyd targedau ehangach o ran y gymuned a seilwaith hefyd, gan gynnwys gwella cysylltiadau cymunedol, sicrhau amgylchedd o ansawdd uchel a chynyddu cyfleoedd cyflogaeth. Datblygwyd yr amcanion hyn i lunio cynllun gweithredu manwl i Six Bells a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru.

Yn achos prosiectau buddsoddi mawr o'r math hwn mae'n bwysig bod llinellau atebolrwydd clir a phriodol ar waith i sicrhau y caiff penderfyniadau eu llywodraethu'n dda. Cynlluniwyd rhaglen yr ardal adnewyddu i bara am wyth mlynedd o 2003-04 i 2010-11. Yn y cynllun gweithredu gwreiddiol nododd y Cyngor fod angen rhyw £16 miliwn i gyflawni ei amcanion gwella a gwella hyd at 400 o gartrefi yn Six Bells. Erbyn 2011, roedd y Cyngor wedi buddsoddi £12.4 miliwn yn yr ardal adnewyddu a dim ond 111 o gartrefi a oedd wedi'u gwella ac roedd y cynllun i gyd ar ei hôl hi'n sylweddol.

Mae hyn wedi arwain at anhapusrwydd cynyddol ymhlith trigolion lleol a chwynion i'r Aelod Seneddol lleol, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Cynhaliwyd adolygiad gennym mewn ymateb i hynny gan ystyried effeithiolrwydd yr adnoddau a'r trefniadau rheoli a llywodraethu a gyflwynwyd gan y Cyngor i oruchwylio a rheoli prosiect Ardal Adnewyddu Six Bells. Canfu ein hadolygiad nad yw trefniadau llywodraethu na rheoli prosiect Ardal Adnewyddu Six Bells yn gynhwysfawr ac nid ydynt wedi helpu'r Cyngor i adfywio cymuned Six Bells yn effeithiol. Mae'r casgliadau hyn hefyd yn cyd-fynd â chasgliadau ein hadolygiad o brosiect The Works yn ystod hydref 2011 a ganfu nad oedd y systemau adrodd na chraffu ar

[3]Mae cynlluniau adnewyddu ardaloedd yn galluogi awdurdodau lleol i dargedu gweithgarwch a buddsoddiad ar ardaloedd sydd angen cymorth ond sydd hefyd â'r potensial i'w hadfywio. Felly, nid gwella tai yn unig yw diben Ardaloedd Adnewyddu Cymdogaethau ond hefyd yr amodau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd sy'n arwain at adfer hyder yn yr ardal. Er mwyn dynodi ardal yn Ardal Adnewyddu, mae'n ofynnol i gynghorau gynnal asesiad manwl o'r Ardal Adnewyddu Cymdogaeth a datblygu cynllun cyflawni clir wedi'i ariannu a'i reoli'n briodol.

berfformiad yn gynhwysfawr nac yn effeithiol bob amser ac a nododd un ardal lle mae angen cryfhau trefniadau corfforaethol y Cyngor.

**Mae Blaenau Gwent wedi mynd ati i geisio newid ac mae wedi gwneud cryn dipyn i foderneiddio gwasanaethau. Nid yw'r Cyngor yn hunanfodlon ac mae'n cydnabod bod nifer o feysydd i'w datblygu o hyd. Mae'n awyddus i gefnogi annibyniaeth dinasyddion ond mae hefyd yn cydnabod y cyfyngiadau sy'n wynebu cyfarwyddiaethau gwasanaethau cymdeithasol bach.**

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) arolygiad o wasanaethau i blant ac oedolion ym mis Mawrth 2012. Cyhoeddwyd yr arolygiad ym mis Mehefin a chanolbwyntiodd ar feysydd y nodwyd y mae angen eu gwella yn y ddau wasanaeth, gan gynnwys dull Blaenau Gwent o foderneiddio gwasanaethau. Er i'r arolygiad ganolbwyntio'n bennaf ar drefniadau comisiynu ar gyfer oedolion a gwasanaethau pontio i blant a datblygiad y gwasanaethau hynny, darparodd sylwadau hefyd ar yr amgylchedd rheoli ac ymarfer ehangach ac mae'r canfyddiadau allweddol hyn yn berthnasol i drefniadau corfforaethol y Cyngor.

Canfu'r arolygiad fod y Cyngor wedi nodi bod ganddo feddwl agored ynghylch integreiddio gwasanaethau cymdeithasol â Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Roedd rheolwyr a staff yn cydnabod y bydd integreiddio yn werthfawr i ddatblygu gwasanaethau ymhellach ac y bydd hefyd yn gyfle i elwa ar ddulliau newydd o weithredu. Mae gwasanaethau cymdeithasol wedi gweithio tuag at drefniadau partneriaeth gydag iechyd, addysg a thai yn ogystal â'r trydydd sector i ddiwallu anghenion pobl leol a darparu'r gwerth gorau. Mae'r bartneriaeth gyda chydweithwyr ym Mwrdd Iechyd Aneurin Bevan wedi bod yn arbennig o agos, gyda safleoedd a rennir a rhai timau sydd wedi'u cydleoli. Mae swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol wedi parhau i dderbyn cefnogaeth gorfforaethol a gwleidyddol. Mae'r ffaith bod yr awdurdod lleol yn fach yn golygu y gellir cydweithio'n dda ar draws gwasanaethau i oedolion a phlant. Mae'r gwaith pontio wedi dangos pa mor dda y gall gwasanaethau gydweithio â'i gilydd.

Nododd uwch reolwyr mewn gwasanaethau cymdeithasol fod pwysau cynyddol arnynt i reoli llwyth a chymhlethdod y gwaith o dan gyfyngiadau ariannol parhaus. Tynnodd yr arolygiad sylw hefyd at feysydd lle mae gweithwyr mewn gwasanaethau i oedolion dan bwysau sylweddol heb fawr ddim adnoddau dros ben i ateb y galw cynyddol. Er mwyn rheoli'r sefyllfa hon yn effeithiol, gwnaed penderfyniadau comisiynu i sicrhau'r gwerth gorau am arian gan wella canlyniadau i bobl y mae angen cymorth arnynt drwy gyfrwng gwasanaethau o ansawdd uchel.

**Mae'r ymateb i arolygiad Estyn a chynnydd cyffredinol y Cyngor wedi bod yn araf ac, er bod newidiadau bellach yn digwydd yn gyflymach ac mewn modd mwy penodol ers mis Ionawr 2012, erys llawer o waith i'w wneud o hyd**

Cwblhaodd Estyn ymweliad dilynol ym mis Mehefin 2012 i fonitro'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor i wella ei wasanaethau addysg ers yr arolygiad o Wasanaethau Addysg yr Awdurdod Lleol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ym mis Mai 2011. Casgliad yr ymweliad monitro oedd, er bod rhai gwelliannau wedi'u gwneud i brosesau, araf a phetrus fu'r gwelliannau hynny. Bregus iawn fu cynnydd ac nid yw wedi cael digon o effaith ar ganlyniadau eto. Mae llawer o waith pwysig gan y Cyngor i'w wneud o hyd i osod y sylfeini cadarn sydd eu hangen i sicrhau bod ei wasanaethau addysg a'i ysgolion yn cyflawni argymhellion arolygiad 2011 yn llawn.

## Cynigion pellach ar gyfer gwella

Caiff rhai cynigion newydd ar gyfer gwella eu hawgrymu yn y llythyr hwn. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor o ran gweithredu'r cynigion a nodwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol ac yn cyflwyno adroddiadau arno.

| | |
|---|---|
| **Cynigion ar gyfer Gwella – Cynllunio Gwelliant** | |
| C1 | Cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 wrth ddiwygio'r Blaengynllun ar yr Amcanion Gwella a mynd i'r afael â chasgliadau'r ymarfer hwnnw. |
| **Cynigion ar gyfer Gwella – Cynllunio Ariannol Tymor Canolig** | |
| C2 | Gwella ansawdd y wybodaeth a ddefnyddir i nodi'r effaith ariannol debygol a gaiff y galw cynyddol am wasanaethau, newidiadau demograffig ac asesiad o ddarpariaeth gwasanaethau statudol ac anstatudol y Cyngor. |
| C3 | Diwygio'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig i gynnwys cynllun gweithredu sy'n dangos sut yr eir i'r afael â'r diffygion ariannol a ragwelir a sut y caiff pwysau ar wasanaethau ei reoli yn y dyfodol. |
| **Cynigion ar gyfer gwella – Ardal Adnewyddu Six Bells/Rheoli'r Prosiect** | |
| C4 | Mynd i'r afael â gwendidau o ran amrywiaeth a chwmpas adroddiadau'r prosiect drwy gynnwys:<br>• gwybodaeth am berfformiad cyllidebol ar draws y flwyddyn sy'n dangos cyfanswm cost y prosiect, ffynonellau ariannu, ymrwymiadau, arian nas clustnodwyd ac arian sydd heb ei sicrhau eto;<br>• risgiau'r prosiect a gweithgarwch lliniaru i fynd i'r afael â'r rhain;<br>• asesiad o gynnydd yn erbyn targedau a chamau gweithredu cynllun gweithredu'r prosiect gan gynnwys cerrig milltir prosiectau unigol. |

| | |
|---|---|
| C5 | Adolygu'r ystod bresennol o ddata perfformiad y prosiect a sicrhau bod amrywiaeth cynhwysfawr o fesurau perfformiad priodol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar waith ar gyfer prosiectau mawr a fydd yn ei gwneud yn bosibl i asesu effaith a chanlyniadau. |
| C6 | Adrodd yn rheolaidd ar berfformiad prosiectau mawr i'r Weithrediaeth a'r tîm Craffu bob chwarter gan roi'r diweddaraf ar berfformiad a chynnydd yn erbyn cynlluniau gweithredu prosiectau er mwyn cryfhau atebolrwydd dros y prosiect. |

## Diweddariadau i'r cynllun gwaith a'r amserlen

Bydd Tîm yr Asesiad Gwella yn sicrhau bod y Cyngor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau manwl ar gyfer cyflawni fy ngwaith asesu. Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen a gaiff eu diweddaru'n rheolaidd yn rhoi rhagor o fanylion am y gwaith sy'n cael ei gyflawni yn ystod asesiad eleni ac yn benodol sut y byddwn yn ychwanegu gwerth drwy ganolbwyntio ar feysydd neu wasanaethau a nodwyd ar y cyd.

Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen yn ystyried fy ymgynghoriad â'r awdurdodau gwella ar fy nghynigion ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2012-13. Yn benodol, byddaf yn gofyn i Dîm yr Asesiad Gwella ystyried yn ystod y flwyddyn faint y gallwn ddibynnu ar y prosesau hunanasesu (gan gynnwys eich adolygiad o lywodraethu wrth gynhyrchu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'ch Adroddiad Perfformiad Blynyddol). Byddaf yn gwneud sylwadau ar y gwaith hwn yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol.

Rwyf yn ddiolchgar i'r Cyngor am y ffordd y mae wedi helpu i hwyluso ein gwaith a gobeithiaf weld trefniadau hyd yn oed mwy effeithiol ac effeithlon yn datblygu dros amser. Rwyf yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu lefelau priodol o sicrwydd cyhoeddus gan eich helpu ar yr un pryd i liniaru'r risgiau anochel i wasanaethau ac atebolrwydd sy'n deillio o leihad mewn adnoddau a newidiadau o ganlyniad i hynny.

Yn gywir



**HUW VAUGHAN THOMAS**

**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

CC: Carl Sargeant, Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau
Non Jenkins, Rheolwr Rhanbarthol
Nick Selwyn, Swyddog Arweiniol Archwilio Perfformiad

# Atodiad 1

| Argymhellion Statudol | Cynnydd |
|---|---|
| 1. Datblygu a chytuno ar gynllun gweithredu sy'n mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn yr Adroddiad ar yr Asesiad Corfforaethol, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2011, drwy ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol yn cynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a Llywodraeth Cymru. | Mae'r Cyngor drwy ei Raglen Adfer Gorfforaethol wedi datblygu cynllun gweithredu manwl ac wedi rhoi trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd ar waith i helpu i'w gyflawni. Megis dechrau mae'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Gweithredu ac erys llawer o waith i'r Cyngor ei wneud dros y chwe mis nesaf. Mae'n arbennig o bwysig bod y Cyngor yn gosod mesurau clir i farnu effaith ei waith a dangos i'w ddinasyddion bod y canlyniadau gwella y mae'n anelu atynt yn cael eu cyflawni. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor o ran cyflawni'r Rhaglen Adfer Gorfforaethol a byddwn yn barnu effaith y gwaith yn ein gwaith lleol a'n Hadroddiad Gwella Blynyddol. |
| **Cynigion ar gyfer gwella** | **Cynnydd** |
| 1. Cymhwyso'r dull o bennu Amcanion Gwella sy'n canolbwyntio ar gyflawni gwell canlyniadau i ddinasyddion, i'r broses o gynllunio, darparu, monitro ac adrodd ar yr amrywiaeth llawn o swyddogaethau a gweithgareddau'r Cyngor. | Mae'r Cyngor drwy ei Raglen Adfer Gorfforaethol wedi datblygu cynllun gweithredu manwl ac wedi rhoi trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd ar waith i helpu i'w gyflawni. Megis dechrau mae'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Gweithredu ac erys llawer o waith i'r Cyngor ei wneud dros y chwe mis nesaf. Mae'n arbennig o bwysig bod y Cyngor yn gosod mesurau clir i farnu effaith ei waith a dangos i'w ddinasyddion bod y canlyniadau gwella y mae'n anelu atynt yn cael eu cyflawni. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor o ran cyflawni'r Rhaglen Adfer Gorfforaethol a byddwn yn barnu effaith y gwaith yn ein gwaith lleol a'n Hadroddiad Gwella Blynyddol. |
| 2. Gwerthuso ac adrodd ar effaith cyllidebau llai ar wasanaethau rheng flaen er mwyn nodi risgiau sy'n deillio o benderfyniadau ynghylch dadfuddsoddi ac ymdrin â hwy. | Mae'r Cyngor drwy ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn parhau i reoli ei gyllidebau a mynd i'r afael â diffygion a thoriadau ariannol. Nid yw'r effaith ar y gwasanaethau hyn ar gael bob amser ac nid yw bob amser yn glir sut yr eir i'r afael â chynnydd yn y galw am wasanaethau a newidiadau demograffig. Nododd ein hadolygiad o wybodaeth ariannol am brosiectau mawr wendidau difrifol yn ansawdd y wybodaeth a gyflwynir i Aelodau er mwyn goruchwylio perfformiad a chraffu arno. Er enghraifft, ein hadolygiad o brosiect The Works ac Ardal Adnewyddu Six Bells. Erys bylchau sylweddol yn systemau rheoli prosiectau buddsoddi mawr ac mae llawer o waith i'w wneud eto i wella gwerth am arian. Rydym yn bwriadu cynnal asesiad yn seiliedig ar wasanaethau o effaith lleihad mewn cyllidebau ac adnoddau a byddwn yn adrodd ar ein canfyddiadau yn Adroddiad yr Asesiad Gwella. Bydd yr adolygiad hwn yn nodi ac yn asesu effaith lleihad mewn refeniw, cyfalaf ac adnoddau dynol ar wasanaethau ac yn gwerthuso a yw'r Cyngor yn parhau i reoli'r modd y mae'n cyflawni ei rwymedigaethau statudol a'i amcanion gwella yn effeithiol. |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
| --- | --- |
| 3. Dylai'r Cyngor barhau i fynd i'r afael â'r cynigion a'r camau gweithredu ar gyfer gwella a nodwyd mewn adroddiadau archwilio allanol a rheoleiddio blaenorol. | Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd i fynd i'r afael â'r cynigion a'r camau gweithredu ar gyfer gwella, a bydd rhagor o waith a gynlluniwyd o dan y Rhaglen Adfer Gorfforaethol yn cryfhau systemau llywodraethu ac atebolrwydd dros berfformiad. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor a byddwn yn barnu effaith y gwaith yn ein gwaith lleol a'n Hadroddiad Gwella Blynyddol. |
| 4. Gwella gwybodaeth am gostau uned, costau gweithgareddau, meincnodau a mesurau perfformiad ariannol eraill i gefnogi penderfyniadau ariannol hyddysg. | Prin yw'r gwaith y mae'r Cyngor wedi'i wneud i herio gwerth am arian a gwella gwybodaeth am gostau uned. Yn hytrach, mae'r Cyngor wedi ceisio gwella ei brosesau cynllunio ariannol a dadansoddi gwerth am arian drwy gyhoeddi ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Er bod hyn wedi galluogi'r Cyngor i asesu ei sefyllfa ariannol yn y tymor canolig mae angen iddo gryfhau ei gynlluniau i fynd i'r afael â diffygion. |
| 5. Datblygu dull o herio gwerth am arian a chynaliadwyedd patrymau a dulliau presennol o ddarparu gwasanaethau ym mhob gwasanaeth a'i gymhwyso'n gyson. | Rydym yn bwriadu cynnal asesiad yn seiliedig ar wasanaethau o effaith lleihad mewn cyllidebau ac adnoddau a byddwn yn adrodd ar ein canfyddiadau yn Adroddiad yr Asesiad Gwella. Bydd yr adolygiad hwn yn nodi ac yn asesu effaith lleihad mewn refeniw, cyfalaf ac adnoddau dynol ar wasanaethau ac yn gwerthuso a yw'r Cyngor yn parhau i reoli'r modd y mae'n cyflawni ei rwymedigaethau statudol a'i amcanion gwella yn effeithiol. |
| 6. Parhau i gydymffurfio'n well â'r Mesur a chanllawiau cysylltiedig, atgyfnerthu trefniadau hunanasesu a gwella systemau adrodd ar berfformiad. | Mae'r Cyngor wedi gwella'r ffordd y mae'n adrodd ar berfformiad ac yn asesu'r cynnydd a wneir o ran cyflawni ei flaenoriaethau allweddol. Mae'r Cyngor yn defnyddio amrywiaeth eang o wybodaeth yn ei hunanasesiad i farnu pa mor dda y mae'n perfformio ac mae'n gwneud rhagor o waith i ddatblygu mesurau canlyniadau, ond mae angen iddo wneud defnydd gwell o dargedau a chymariaethau ac adrodd yn llawnach ar ei berfformiad.<br>Mae gan y Cyngor systemau sefydledig i gofnodi gwybodaeth ac mae ei Adroddiad ar Berfformiad a luniwyd ym mis Hydref 2011 yn dangos perfformiad yn erbyn y Dangosyddion Strategol Cenedlaethol lle bo'r rhain yn gysylltiedig ag Amcanion Gwella. Mae Adroddiad ar Berfformiad y Cyngor yn rhoi crynodeb o'r cynnydd a wneir i gyflawni amrywiaeth o weithgareddau yn erbyn yr Amcanion Gwella. Fodd bynnag, nid yw'r naratif ar gynnydd nac ansawdd y mesurau perfformiad a ddefnyddir bob amser yn ein helpu i gasglu a yw'r Cyngor yn cyflawni ei Amcanion Gwella ai peidio. Mae'r Cyngor yn ceisio rhoi mwy o bwyslais ar allu barnu effaith a chanlyniadau fel rhan o'r Rhaglen Adfer Gorfforaethol. Mae'r Cyngor hefyd wedi gwneud llawer o waith i gryfhau ei swyddogaeth graffu ac mae wedi blaenoriaethu gwaith i gryfhau ei swyddogaeth llywodraethu ac atebolrwydd. |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| 7. Nodi sut y bydd y gwelliannau a nodir yn ei amcanion o fudd i ddinasyddion, a sicrhau y gellir eu cyflawni yng nghyd-destun llai o adnoddau. | Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol wedi sefydlu panel dinasyddion â mwy na 1,000 o aelodau ac mae'n gweithio gyda'r panel i sicrhau y caiff anghenion dinasyddion eu nodi a'u diwallu'n well wrth ddatblygu gwasanaethau. Byddwn yn barnu effaith y gwaith yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol. |
| 8. Datblygu mesurau llwyddiant wedi'u hategu gan wybodaeth am berfformiad y Cyngor ar hyn o bryd, ei dargedau, dadansoddiad o gostau a sut mae ei berfformiad yn cymharu â chynghorau eraill. | Mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd i fireinio a gwella ei amcanion gwella er mwyn sicrhau y gall ddangos effaith a chanlyniadau'n well. Yn ei Gynllun Gwella Corfforaethol 2012-2017 - 2012-13 Cam 1, nodir Amcanion Gwella'r Cyngor o dan fodel Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau sy'n cynnwys y canlynol:<br>• pam rydym wedi dewis yr amcan hwn - gwybodaeth sy'n rhoi ffocws y camau gwella yn ei gyd-destun;<br>• y stori y tu ôl i'r llinell sylfaen - y ffactorau y mae angen mynd i'r afael â hwy mewn cyd-destun ehangach;<br>• y stori y tu ôl i berfformiad - crynodeb o effaith gweithgarwch a'r cyd-destun gwella yn gyffredinol;<br>• camau arfaethedig i gyflawni gwelliant yn 2012-13.<br>Mae rhai o'r amcanion gwella yn amcanion cyffredinol ac mae'n amlwg beth y gall dinasyddion ddisgwyl ei weld yn gwella o dan y model Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau. Er enghraifft o dan yr Amcan Gwella *Mae'r bobl agored i niwed hynny y mae angen cymorth arnynt gan wasanaethau cymdeithasol yn cael eu galluogi i fyw bywydau annibynnol a bodlon, aros yn eu cartrefi eu hunain am gyhyd â phosibl*, mae'r pwyslais ar weithredu strategaeth gofal cymdeithasol y Cyngor - byw'n annibynnol yn yr 21ain ganrif - a phrosiect eiddilwch Gwent.<br>Fodd bynnag, nid yw'r ffocws wedi'i alinio'n glir mewn achosion eraill. Er enghraifft, o dan yr Amcan Gwella *Cynnal a chadw a gwella'r rhwydwaith priffyrdd i gyfrannu at seilwaith trafnidiaeth diogel ac effeithiol*, ychydig iawn o fesurau ystylon a geir i farnu effaith a dangos llwyddiant. Mae'r naratif yn canolbwyntio ar gynnal a chadw priffyrdd a gwella ansawdd priffyrdd. Fodd bynnag, mae'r camau gweithredu yn llawer ehangach na hyn ac yn cynnwys cynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio tocynnau teithio rhatach ar gyfer bysiau a lleihau nifer y marwolaethau ac anafiadau a achosir gan ddamweiniau ar y priffyrdd. Nid yw'r mesurau llwyddiant, fodd bynnag, yn cynnwys unrhyw ddata i farnu effaith y camau gweithredu hyn. Byddwn yn parhau i fonitro sut mae'r Cyngor yn rheoli perfformiad, yn arbennig mewn perthynas â'i Amcanion Gwella, a byddwn yn adrodd ar ein canfyddiadau yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol. |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
| --- | --- |
| 9. Nodi safonau gwasanaeth gofynnol ar gyfer pob maes gwasanaeth y gellir monitro perfformiad **yn eu herbyn**. | Mae'r Cyngor, drwy ei waith i ymgorffori'r model Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau, yn ceisio gwella ffocws gwasanaethau i ddinasyddion a sicrhau y darperir y lefel a'r ymateb mwyaf priodol sy'n diwallu anghenion trigolion Blaenau Gwent. Rydym yn bwriadu cynnal asesiad yn seiliedig ar wasanaethau o effaith lleihad mewn cyllidebau ac adnoddau a byddwn yn adrodd ar ein canfyddiadau yn Adroddiad yr Asesiad Gwella. Bydd yr adolygiad hwn yn nodi ac yn asesu effaith lleihad mewn refeniw, cyfalaf ac adnoddau dynol ar wasanaethau ac yn gwerthuso a yw'r Cyngor yn parhau i reoli'r modd y mae'n cyflawni ei rwymedigaethau statudol a'i amcanion gwella yn effeithiol. |